*Aelodaeth is bwyllgor Cymorthdaliadau: Cllrs / Cyng Rob Parkes, Raymond Bartley, Medwyn Williams, Colin Hughes, Roy Tickle, Shereen Devine a Gaynor Wood.*

**Cofnodion is-bwyllgor Cymorthdaliadau a gynhaliwyd nos Fawrth, Ebrill 22ain 2015 am 5 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Roy Tickle, Gaynor Wood, Medwyn Williams a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Cyng. Colin Hughes (cadeirydd), Shereen Devine (is gadeirydd).

Yn absenoldeb y cadeirydd a'r is gadeirydd etholwyd y Cyng Rob Parkes i gadeirio'r cyfarfod.

**Datganiad Diddordeb:** Cyng Roy Tickle - Gŵyl I Ganol Haf
Cyng Gaynor Wood - Gŵyl Ganol Haf
Cyng Raymond Bartley - Carnifal Dinbych
Cyng Raymond Bartley - Cronfa Hen ac Anabl

1. **I drafod ac argymell polisi ar daliadau cymorthdaliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol 2015/2016:** Am mae'r cyfarfod yma oedd y cyfarfod cyntaf yn y flwyddyn ariannol bresennol, cytunwyd i adolygu polisi cymorthdaliadau'r cyngor. Mynegwyd cryn bryder ynglŷn â pholisi'r cyngor i osod uchafswm o £3,000 ar geisiadau a dderbynnir. Ers i'r polisi gael ei gytuno roedd yn ymddangos fod mwy o geisiadau yn cael eu cyflwyno am £3,000. Dywedwyd fod y cyngor yn delio ac arian cyhoeddus. Cyfeiriwyd at baragraff 6 o'r nodiadau cyfarwyddo ynghlwm wrth y ffurflen gais, hynny yw os bydd grantiau a ganiateir dros £1,000 roedd rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar sut y gwariwyd yr arian. Cytunwyd fod angen archwilio'n ddwfn ceisiadau am symiau mawr.
Cytunwyd i argymell y polisi canlynol i sicrhau fod digon o arian ar gael i ariannu pob cais am gymorthdaliadau a dderbynnir yn ystod y flwyddyn.

(1) Ceisiadau oddi wrth elusennau cenedlaethol. I argymell parhau a'r polisi o £100 y cais ond i gadw rhagorfraint os byddai sefyllfa leol benodol neu argyfwng.
(2) Ceisiadau oddi wrth elusennau lleol. I argymell parhau a'r polisi fod pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiant.
(3) Uchafswm o **£1,500** i'w osod ar bob cais. I argymell fod pob cais i'w archwilio'n ofalus ac os bydd angen i ofyn am fwy o wybodaeth. Gellir ystyried grantiau am fwy na £1,500 os oedd y cais, yn dilyn archwiliad, yn cyfiawnhau'r grant uwch.
(4) Bod rhaid i fantolen neu gyfrifon gael ei gynnwys gyda phob cais ac os nad oedd hyn ar gael fod angen eglurhad pam nad oedd hyn yn bod.
(5) Pob grant a ganiateir oedd dros £1,000 bydd rhaid i'r ymgeiswyr gyflwyno adroddiad ysgrifenedig ar sut y gwariwyd yr arian. Yr adroddiad i'w yrru i'r cyngor tref o fewn 12 mis o ddyddiad y grant.

Dywedwyd fod **£51,000** ar gael yng nghyllideb cymorthdaliadau

1. Sioe Dinbych a Fflint 2015. Cais blynyddol. Cytunwyd i argymell grant o £250 (A.137).

2. Cae Dai. Cais yn gofyn am ariannu o £3,000 tuag at gostau prosiect o £3,144 i osod sustem larwm tân yn yr amgueddfa. Gohiriwyd y cais ym mis Chwefror gan y cyngor er mwyn cael mwy o ddyfynbrisiau ac i'r ceisydd fynd i'r afael a'r ddau bryder a godwyd gan y cyngor. Gohiriwyd ymhellach ym Mis Mawrth am na dderbyniwyd yr wybodaeth. Hyn yn hyn ni dderbyniwyd yr wybodaeth. Cytunwyd i argymell gohiriad pellach.

3. Cymdeithas Dyffryn Clwyd - Eirin Dinbych. Cais am y tro cyntaf. Gofynnwyd am hyd at £3,000 tuag at gyfanswm o £4,953. Ariannwyd y digwyddiad yma yn y gorffennol drwy Grŵp Busnes Dinbych. Mynegwyd nifer o bryderon. Nodwyd fod swyddogion y gymdeithas yma yn union a rhai y grŵp busnes. Gofynnwyd cwestiwn pam fod y grŵp yma wedi ei sefydlu ac ar wahân i'r grŵp busnes. Yn dilyn cryn drafodaeth cytunwyd i argymell gohiriad ac i ofyn am wybodaeth (1) os oedd cyfrif banc wedi ei agor, (2) os oedd gan y grŵp gyfansoddiad.

4. Grŵp Busnes Dinbych. Cais blynyddol yn gofyn am £3,000 i drefnu (1) "Showcase" busnes yn ystod yr haf, (2) Gŵyl Nadolig a (3) Gŵyl dydd Gŵyl Dewi Sant 2016. Unwaith eto mynegwyd pryder ynglŷn â'r gorymylol gyda chais Cymdeithas Dyffryn Clwyd - Eirin Dinbych. Yn dilyn cryn drafodaeth cytunwyd i argymell gohiriad ac i gael mwy o wybodaeth ar y "Showcase" busnes ystod yr haf a'i berthynas fel digwyddiad cyhoeddus.

5. Cronfa Hen ac Anabl Dinbych. Cais blynyddol - ni ofynnwyd am swm penodol. Ar gais y cyfarfod cafwyd mwy o wybodaeth gan y Cyng Bartley. Am ei fod wedi datgan diddordeb, gadawodd y Cyng Bartley y siambr tra trafodwyd y cais. Cytunwyd i argymell grant o £1,350 (A.137)

6. Elite Martial Arts. Ail gais. Gofynnwyd am £1,500 tuag at gostau o £2,093.47 i ddarparu offer hyfforddiant / diogelwch. Derbyniwyd manylion am yr offer oedd ei angen. Cytunwyd i argymell grant o £1,500 (A.137).

7. Carnifal Dinbych. Cais blynyddol. Gofynnwyd am £3,000 tuag at gostau o £4,000 - £4,500. Cytunwyd i argymell grant o £3,000 (A.137). Awgrymwyd hefyd i argymell, gan ei bod hi'n ymddangos mae'r Cyngor tref oedd y prif gyfrannwr ariannol ar gyfer y digwyddiad i awgrymu i'r trefnwyr i farchnata mae'r cyngor tref oedd prif noddwr y digwyddiad.

8. Gŵyl Ganol Haf Dinbych. Cais blynyddol. Gofynnwyd am £2,500 tuag at gostau o £3,000. Am eu bod wedi datgan diddordeb gadawodd y Cyng Roy Tickle a Gaynor Wood y siambr tra trafodwyd y cais. Cytunwyd i argymell grant o £2,500 (A.137). Yma eto awgrymwyd i argymell, gan ei bod hi'n ymddangos mae'r Cyngor tref oedd y prif gyfrannwr ariannol ar gyfer y digwyddiad i awgrymu i'r trefnwyr i farchnata mae'r cyngor tref oedd prif noddwr y digwyddiad.

9. Gwarchod Cymdogol Lyf Lôn. Gofynwyd am £200 tuag at gostau o £350 i ariannu Lyf Lôn mewn blodau. Cytunwyd i argymell grant o £200 (A.137).

10. Clwb Bowlio Dinbych. Ail gais. Gofynwyd am £3,000 tuag at gostau o £4,434 i brynu peiriant torri glaswellt newydd - derbyniwyd manylion. Cytunwyd i argymell grant o £3,000 gydag amod fod y grant i'w ddefnyddio'n bendant i brynu'r peiriant ac i yrru gwiriad / derbynneb am y pryniant i'r cyngor tref.

Cyfanswm grantiau a argymhellwyd - **£11,900** gan adael balans o £39,100 yng nghyllideb cymorthdaliadau ar gyfer yr un mis ar ddeg oedd ar ôl yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Terfynwyd y cyfarfod am **6.15** o'r gloch.